Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA4

Dinasyddiaeth Weithgar – Cyfranogi

Amlinelliad & Gofynion

Pwnc/Teitl cyffredinol ar gyfer y wers:

Materion sydd yn effeithio ein hamgylchedd

Cyfnod allweddol neu grŵp myfyrwyr:

CA4

Amser sydd angen

1 awr

Disgrifiad byr

Bydd myfyrwyr yn dysgu am y ffyrdd gwahanol mae grwpiau yn gallu gwneud penderfyniadau, y gwahanol fecanwaith o fewn yr ysgol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn caniatáu i farn y myfyrwyr cael ei gynrychioli e.e. dosbarth/ blwyddyn/cynghorau ysgol.

Datblygu meddwl	✓	Datblygu rhifo	
Datblygu cyfathrebu	✓	Gweithio gydag eraill	✓
Datblygu TGC	✓	Gwella hunan ddysgu	✓

Cysylltiad i Fframwaith ABCh APADGOS ar gyfer rai 7 i 19 oed yng Nghymru

Themâu: Dinasyddiaeth Weithredol

Canlyniad dysgu penodol bwriadol:

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

» ddatblygu parch am eu hunain ac eraill
» cyfranogi yn yr ysgol a'r gymuned ehangach

Ac i ddeall

» eu hawliau e.e. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
» egwyddorion democratiaeth yng Nghymru, Y Byd a'r UE
» sut mae cynrychiolwyr yn cael eu hethol ac yn deall eu swyddogaeth
» sut mae pobl ifanc yn gallu cael pobl i wrando ar eu barn ac i ddylanwadu penderfyniadau

Offer, adnoddau a'r paratoi sydd yn rhaid gwneud:

Cyfleusterau TG
Ysgrifbinnau lliw
Papur bras

Cynllun Gwers ABCh CLIC - CA4

Dinasyddiaeth Weithgar – Cyfranogi

Dull

Cychwyn Gwers: (10 munud)

» Mewn grwpiau, mae myfyrwyr yn trafod ac yn gwneud penderfyniad am ddewis elusen neu sefydliad gwirfoddol i gefnogi.
» Annog nhw i drafod wedyn sut daethant at y penderfyniad terfynol fel grŵp.
» Oedd o'n benderfyniad unfrydol?
» Oedd o'n anodd i bawb gytuno ar y penderfyniad terfynol?
» Sut oeddent yn teimlo pan na dderbynnir eu barn?

Cyflwyniad: (20 munud)

» Gofyn i'r dosbarth ddyfeisio diffiniad am gyfranogi. "Beth mae cyfranogi yn ei feddwl?"
» Esboniwch fod cyfranogi yn golygu cymryd rhan, ond pan mae'n cael ei grybwyll drwy gyfeirio at bobl ifanc mae'n aml yn golygu:

1. cael chi'n rhan o brosiectau
2. gweithio gyda chi i gael eich syniadau a'ch barn
3. annog chi i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau i ddylanwadu ar y gwasanaethau a gweithgareddau sydd yn cael eu darparu i chi

» Cyflwynwch ddiffiniad LlC o gyfranogi; 'Ystyr cyfranogiad yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis.'
» Mae hyn yn cysylltu i'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
Erthygl 12:
http://www.cewc-cymru.org.uk/i_bobl_ifanc/eich_hawliau/1621/

Erthygl 12

Llywodraethau i sicrhau fod plant efo'r hawl i fynegi barn yn rhydd ac i'r farn honno gael ei hystyried. Mae plant efo'r hawl i gael eu clywed mewn unrhyw faterion cyfreithiol neu weinyddol sydd yn effeithio nhw.

» Gofynnwch i'r dosbarth – "Pam bod hi'n bwysig i sicrhau fod eich llais yn cael ei glywed pan ddaw at benderfyniadau neu faterion sydd yn effeithio chi?"
» Gofynnwch i'r dosbarth i roi esiamplau ble maen nhw wedi cyfranogi mewn, neu wedi dylanwadu unrhyw benderfyniadau yn ddiweddar

DVD: (10 munud)

Defnyddiwch y ddolen canlynol i DVD 10 munud i arwain y dysgwyr tuag at esboniad y Ddraig Ffynci o'r CCUHP. Efallai byddwch yn hoffi dewis pa ran i wylio yn ôl y dysgwyr.
http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/y-gyfraith-hawliau-a-dinasyddiaeth/
http://www.funkydragon.org/cy/fe/page.asp?n1=1036&n2=1853

Cynllun Gwers ABCh CLIC - CA4

Dinasyddiaeth Weithgar – Cyfranogi

Cynllun Gwers

Gweithgaredd: (20 munud – 5 munud yr un)

Gofynnwch i fyfyrwyr ddefnyddio profiad eu hunain a'r ddolen ganlynol i gysidro'r 4 cwestiwn dilynol am wneud penderfyniadau a chyfranogi: http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/y-gyfraith-hawliau-a- dinasyddiaeth/'

» Rhannwch fyfyrwyr i mewn i grwpiau a rhoi papur siart fflip ac ysgrifbinnau marcio iddynt:

1. Gan ddefnyddio siartiau fflip, gofynnwch i'r myfyrwyr adnabod gwahanol ffyrdd y mae grwpiau o bobl (e.e. sefydliadau, cymunedau) yn gwneud penderfyniadau
2. Cysidrwch y canlynol:
   - ◊ Oes sefyllfaoedd ble mae pawb yn cael mynegi barn?
   - ◊ A yw'n bosib i eraill wneud penderfyniadau ar ein rhan?
   - ◊ Beth yw dulliau teg o wneud penderfyniad?
   - ◊ A'i chymryd pleidlais ar wahanol opsiynau ydy'r unig bosibilrwydd?
   - ◊ Pa ddulliau eraill sydd ar gael, e.e. un person yn penderfynu; pleidleisio (dangos dwylo, baled gyfrinachol, pôl e-bost, AS yn cerdded drwy lobi'r Senedd, refferendwm cenedlaethol); is-grŵp yn penderfynu dros grŵp mwy (er enghraifft bwrdd cyfarwyddo yn gwneud penderfyniad ar ran cyfranddalwyr cwmni)?
3. Dylai myfyrwyr wedyn restru'r dulliau ble gallent 'fynegi eu barn' yn yr ysgol, e.e. trafodaethau anffurfiol gyda staff, trafodaethau grŵp yn ystod cyfnod dysgu, cyfnod cylch, arolygon o farn myfyrwyr, hysbysfyrddau myfyrwyr, cyfarfodydd, cymryd rhan yn y dosbarth/flwyddyn/cynghorau ysgol.
   - ◊ Pa mor effeithiol ydy'r gwahanol fforymau yma?
   - ◊ I ba ehangder mae myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hymgynghori/gallu cyfrannu at drafodaethau?
   - ◊ Sut maent yn cael gwybod am unrhyw benderfyniadau sydd yn cael eu gwneud yn/am yr ysgol?
4. Mewn grwpiau, gallai myfyrwyr gymharu'r dulliau o gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau sydd yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol gyda'r rhai sydd yn cael eu defnyddio yn y byd ehangach
5. Lluniwch awgrymiadau ar sut gallent gymryd mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau, e.e. gwella sgiliau gwrando, dysgu sut i gael y gorau allan o gyfarfodydd, dewis pobl addas i gynrychioli nhw, cymryd rhan mewn arolygon, ysgrifennu llythyrau

Cyflawni (10 munud)

» Ystyried y dysgu sydd wedi digwydd

Awgrymiadau ac adnoddau ychwanegol:

Gwefannau fel CLIC, Llais Disgyblion Cymru (http://www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/hafan/) sydd yn hyrwyddo cyfranogi ac yn caniatáu pobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau.

Mae gwefan Y Ddraig Ffynci efo amryw o DVDs. Mae un am hanes yr CCUHP gydag opsiwn o isdeitlau. Mae hefyd DVD am gynghorau ysgol http://www.funkydragon.org/cy/fe/page.asp?n1=1036&n2=1853